

Cynllun Blynyddol Cynghorwyr Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2020 - 21

**Sicrhau bod Trais yn erbyn Menywod, Camd-drin
Domestig a Thrais rhywiol yn Bwysig i Bawb**

Yasmin Khan a Nazir Afzal OBE

**Cynghorwyr Cenedlaethol, Trais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin
Domestig a Thrais Rhywiol**

Tachwedd 2019

Cynllun Blynyddol Cynghorwyr Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2020 - 21

1. Cyflwyniad

Fel Cynghorwyr Cenedlaethol, yn unol â'n cyfrifoldebau statudol o dan adran 23 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae'n ofynnol i ni lunio Cynllun Blynyddol erbyn 30 Tachwedd ym mhob blwyddyn ariannol, a gaiff ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru.

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio ar bob cymuned ac ardal leol ledled Cymru. Yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017, amcangyfrifir bod cam-drin domestig wedi costio dros £66 biliwn yng Nghymru a Lloegr¹. Mae hyn yn cynnwys costau uniongyrchol i'r economi, gyda thua £14 biliwn yn deillio o allbwn coll oherwydd amser i ffwrdd o'r gwaith a llai o gynhyrchiant oherwydd cam-drin domestig.

Mae'r Ddeddf yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod sy'n wynebu ac sydd mewn perygl o wynebu cam-drin domestig a cham-drin rhywiol a phob math o drais sy'n seiliedig ar rywedd, a'u dileu. Drwy gydnabod natur ryweddol iawn yr ymddygiadau niweidiol hyn, nid ydym yn anwybyddu'r effaith ar ddiodefwyr gwrywaidd, ond yn hytrach rydym yn tynnu sylw at y ffaith mai menywod a merched yw'r diodefwyr mewn nifer anghymesur o achosion.

2. Cyd-destun a Heriau

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i adeiladu cymdeithas nad yw'n goddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig na thrais rhywiol ac sy'n grymuso cymunedau i herio a wynebu'r broblem. Mae hyn yn golygu sicrhau bod gwasanaethau ledled Cymru yn hygyrch i bawb; helpu diodefwyr a goroeswyr i gael gafael ar gymorth a sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol yr adnoddau a'r wybodaeth i weithredu; gwella ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r cymorth sydd ar gael; a helpu plant a phobl ifanc i ddeall anghydraddoldeb mewn perthnasoedd a bod ymddygiad treisgar yn anghywir bob amser.

Ein nod yw sicrhau bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn parhau'n faes gwaith trawsbynciol sy'n gofyn am ymrwymiad gan holl adrannau Llywodraeth Cymru. Felly rydym wedi sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid Arbenigol sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Cyffredinol. Bwriad y Grŵp yw nodi bylchau penodol wth fodloni amcanion Deddf 2015. Er ein bod yn ymwybodol o ddyletswyddau Llywodraeth Cymru o dan y Ddeddf, mae ein neges yn glir - nid un awdurdod sy'n gyfrifol am y mater hwn.

¹ *The Economic and Social Costs of Domestic Abuse*, Oliver, R. Alexander, B., Roe, S. a Wlasny, M, ar gyfer y Swyddfa Gartref, Ionawr 2019

Mae Bil Cam-Drin Domestig Llywodraeth y DU wedi cael ei oedi ar ôl i Senedd y DU gael ei diddymu cyn yr etholiad cyffredinol ar 12 Rhagfyr. Ystyrir yn eang fod y Bil yn angenrheidiol er mwyn trawsnewid yr ymateb i gam-drin domestig, gan helpu i atal troseddu, amddiffyn dioddefwyr a sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae Nazir Afzal, un o'r Cynghorwyr Cenedlaethol, wedi rhoi tystiolaeth lafar i'r Cyd-bwyllgor Seneddol ar y Bil drafft, a Phwyllgor Cyhoeddus y Bil a oedd yn craffu ar ddiwygiadau i'r Bil. Roedd nifer o ddiwygiadau arfaethedig yn seiliedig ar ein profiad yng Nghymru yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor. Wrth gwrs, disgwylir y caiff y Bil ei atgyfodi gan Senedd nesaf y DU, ac y bydd yn mynd yn ei flaen yn gyflym.

Mae'r Bil yn creu rôl y Comisiynydd Cam-drin Domestig, sy'n debyg mewn rhai ffyrdd i rôl y Cynghorwyr Cenedlaethol yng Nghymru. Ar ôl cwrdd â hi, mae hi'n glir bod pwerau'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn y Bil Cam-drin Domestig ond yn gymwys mewn perthynas â materion a gadwyd yn ôl a chyrff nad ydynt wedi'u datganoli yng Nghymru. Rydym yn rhagweld y byddwn yn ffurfio cydberthynas waith agos â'r Comisiynydd Cam-drin Domestig.

Mae cyffredinrwydd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn parhau i fod yn gudd i raddau helaeth, ond mae'n fwy cymhleth na hynny. Er enghraifft, mae Cyfrifiad Plant sy'n Derbyngofal a Chymorth Cymru, 2018 yn dangos bod cam-drin domestig yn ffactor cyffredin nodedig ymhlith y categori o blant y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol yng Nghymru fel "plant mewn angen" - i raddau llawer mwy na phroblemau megis camdriniaeth, gangiau, masnachu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd mwy na 16,000 o blant yng Nghymru a gafodd eu cynnwys yn y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyngofal a Chymorth ar 31 Mawrth 2018 lle roedd pryderon am eu hiechyd neu eu datblygiad a lle roeddent mewn perygl o wynebu namau sylweddol heb gymorth ychwanegol.

Mae nifer y bobl sy'n cael eu lladd o ganlyniad i gam-drin domestig yn y DU ar ei lefel uchaf ers pum mlynedd. Y llynedd cafodd 173 o bobl eu lladd mewn dynladdiadau yn gysylltiedig â thrais domestig, yn ôl a data a gasglwyd gan y BBC o 43 o heddluoedd ledled y DU - cynnydd o 32 o farwolaethau yn 2017.

Felly, nid oes unrhyw le o gwbl i fod yn hunanfodlon. Fodd bynnag, mae'n bwysig gwerthfawrogi'r hyn sydd wedi cael ei roi ar waith yng Nghymru ers i'r Ddeddf ddod i rym.

Fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth genedlaethol pum mlynedd yn 2016. Dilynwyd hyn yr haf diwethaf gan ei fframwaith cyflawni cenedlaethol ac eleni (2019) mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dangosyddion cenedlaethol ar gyfer mesur cynnydd yn erbyn y Ddeddf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau canllaw a safonau cenedlaethol er mwyn helpu i gyflawni'r ymrwymïadau yn ei strategaeth pum mlynedd, gan gynnwys:

- Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru

- Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – Canllawiau i Lywodraethwyr
- Gwybodaeth a chanllawiau ar gam-drin domestig a thrais rhywiol: diogelu pobl hŷn (60+) yng Nghymru
- Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol: Canllawiau Statudol
- Canllawiau Hyfforddi Gofyn a Gweithredu
- Canllawiau Statudol Strategaethau Lleol
- Canllawiau Statudol ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Safonau Gwasanaeth i Gyflawnwyr Trais

Mae Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn codi pwysigrwydd datblygu ymatebion hyderus, priodol a chadarnhaol i'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig. Mae'n uwchsgilio gwasanaethau cyhoeddus er mwyn ymateb yn fwy effeithiol i'r rhai sy'n profi'r trawma hwn. Mae tua 167,200² o bobl yng Nghymru wedi cael hyfforddiant o dan y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mae dros 4300 wedi cael hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu'. Hyfforddiant yw hwn ar gyfer gweithwyr proffesiynol rheng flaen ym maes iechyd, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, awdurdodau lleol a gwasanaethau tân ac achub, i'w galluogi i adnabod arwyddion y gall fod rhywun yn dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a gwybod sut i'w cyfeirio at gymorth priodol. Mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn am yr hyfforddiant hwn hefyd ar gyfer holl Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth.

Mae dros 151,000 o weithwyr mewn awdurdodau perthnasol wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth e-ddysgu a dywedodd 96% o'r rhai a gafodd yr hyfforddiant eu bod yn hyderus i adnabod arwyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr er mwyn sicrhau bod y rhai â phrofiad uniongyrchol yn llywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisïau. Mae'r fframwaith hefyd yn cefnogi goroeswyr camdriniaeth i addysgu eu cymheiriaid a chodi ymwybyddiaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gweithio gyda chyflawnwyr trais er mwyn rhoi'r cyfle iddynt newid eu hymddygiad yn elfen hanfodol o atal ac adsefydlu. I'r perwyl hwn mae'n datblygu gwaith ar bolisi cyflawnwyr trais drwy drefniant cydweithredol â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

Mae Bil Cam-drin Domestig Llywodraeth y DU yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Hysbysiadau Amddiffyn Cam-drin Domestig (DAPN) a Gorchmynion Amddiffyn Cam-drin Domestig (DAPO). Bydd y rhain yn cynnwys yr opsiwn i osod 'gofynion cadarnhaol', a fydd yn dibynnu ar argaeledd rhanbarthol gwasanaethau arbenigol i gyflawnwyr trais sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'n rhaid bod gan y rhain adnoddau effeithiol, gyda gwiriadau ar waith i sicrhau bod gwasanaethau o'r fath yn cydymffurfio â safonau gwasanaeth cydnabyddedig (h.y.

safonau'r Panel Cyngori ac Achredu Gwasanaethau Cywirol, Respect a Llywodraeth Cymru).

Mae'n rhaid i unrhyw wasanaethau i gyflawnwyr trais a ddatblygir er mwyn cyflawni gofynion cadarnhaol y Gorchymyn Amddiffyn Cam-drin Domestig gynnwys cyfres o ymyriadau sy'n bodloni gofynion risg, angen ac ymateb amrywiol y cyflawnwyr trais dan sylw. Ni fydd un ateb yn addas i bawb.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth ar "beth sy'n gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig?" ym mis Rhagfyr 2018 ac o ganlyniad lansiodd Safonau Gwasanaeth i Gyflawnwyr Trais ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r gwaith o gydgysylltu gwasanaethau yn strategol ar lefel leol - hyfforddiant a gwaith ataliol, gan gynnwys addysg ar gydberthnasau iach mewn ysgolion ac ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth. Mae hefyd yn ariannu awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector i ddarparu gwasanaethau i gefnogi ac amddiffyn dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Drwy ymgyngoriad, lluniodd y Llywodraeth y gyfres gyntaf o Ddangosyddion Cenedlaethol a fydd yn llywio ac yn dylanwadu ar benderfyniadau strategol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ynglŷn â pholisïau a gwasanaethau yn unol â diben y Ddeddf a bydd yn seiliedig ar y tair colofn, sef atal, amddiffyn a chefnogi. Gosodwyd Canllawiau Statudol ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru ym mis Chwefror 2019, o dan Adran 15 o'r Ddeddf. Mae'r dangosyddion yn dod â data cymhleth ynghyd mewn fformat sy'n ystyrlon i bobl sy'n gweithio yn y maes, y rhai sy'n llunio polisiau a'r cyhoedd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Dangosyddion Cenedlaethol ar ddiwedd mis Mehefin 2019. Fodd bynnag, mae wedi bod yn anodd iawn nodi ffynonellau data priodol y gellir eu dadgyfuno i Gymru ac sy'n cael eu cymhwyso yn gyson ledled Cymru. Mae hyn wedi bod yn rhwystr allweddol i ddatblygu dangosyddion cenedlaethol yn gynt. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu'r dangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol cenedlaethol a gyhoeddwyd ymhellach, gan gynnwys nodi ffynonellau data newydd neu ddatblygu ei setiau data perthnasol ei hun ledled Cymru.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gweithgor sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn. Caiff y dangosyddion terfynol eu cyhoeddi yn ystod haf 2020 a chânt eu defnyddio i roi gwybodaeth am gynnydd yn erbyn y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016 – 2021. At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r Dangosyddion Cenedlaethol i lywio unrhyw strategaeth ddiwygiedig o 2021 ymlaen.

Rydym wedi manteisio ar bob cyfle i gymeradwyo'r gwaith rhagorol hwn, sy'n aml yn arloesol, yn gyhoeddus, ond mae mwy i'w wneud o hyd.

3. Amcanion

Yn ein cynllun blynyddol diwethaf, gwnaethom nodi cyfres o amcanion uchelgeisiol iawn a oedd yn angenrheidiol er mwyn parhau â'r momentwm i newid, yn ein barn ni. Eleni, sef ein blwyddyn olaf fel Cynghorwyr Cenedlaethol, rydym yn cynnig adolygu'r amcanion blaenorol sy'n mynd rhagddynt ond sydd heb eu bodloni eto. Byddai'n ddiotal ar ein rhan i ddatblygu cyfres newydd sbon o amcanion heb fyfyrion ar amcanion y cynllun diwethaf sy'n dal i fynd rhagddynt. Byddwn yn gweithio gyda'r grŵp Rhanddeiliaid Arbenigol Cenedlaethol er mwyn nodi sut y gallwn ddatblygu hyn.

DULL IECHYD CYHOEDDUS

Ni all asiantaeth ar ei phen ei hun fynd i'r afael â thrais, am ei fod yn deillio o lawer o broblemau gwahanol. Dim ond drwy ddilyn dull strategol a chydgyssylltiedig sy'n cynnwys amrywiaeth o asiantaethau, gan gynnwys partneriaethau rhwng cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol, y gellir mynd i'r afael â throseddau treisgar.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid strategol sy'n chwarae rôl allweddol o ran lleihau trais, gan ddod â phartneriaid ynghyd drwy eu rolau strategol a gweithredol sy'n rhychwantu gorfodaeth, ymyrraeth gynnar, atal mewn perthynas â throseddau treisgar a darparu cymorth i ddioddefwyr trais. Er bod ffyrdd gwahanol o leihau ymddygiad treisgar, mae dull iechyd cyhoeddus yn cael ei drafod yn gynyddol, gan ddefnyddio methodoleg wedi'i harwain gan dystiolaeth i leihau ac atal trais mewn cymunedau. Edrychwn ymlaen at ddatblygu fframwaith yn 2020 a fydd yn darparu gwaddol i sicrhau newid diwylliannol er mwyn mynd i'r afael â gwraidd y broblem.

Amcan 1: Byddwn yn archwilio sut y gellir datblygu Dull Iechyd Cyhoeddus ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar weithredu'r dull hwn

DULL CENEDLAETHOL AR GYFER GWASANAETHAU LLOCHES A CHANOLFANNAU ATGYFEIRIO YMOSODIADAU RHYWIOL

Gwnaethom groesawu cyhoeddiad Prif Weinidog blaenorol Cymru i gymryd camau i drawsnewid darpariaeth llochesi a gwasanaethau trais rhywiol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad, wedi'i arwain gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, i edrych ar rai o'r enghreifftiau rhyngwladol gorau o wasanaethau a chymorth. Yn ogystal â hynny, mae'n bwysig ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau er mwyn datblygu model "a wnaed yng Nghymru" sy'n darparu cymorth o'r radd flaenaf i ddioddefwyr trais rhywiol.

Amcan 2: Byddwn yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol a'r Trydydd Sector a darparwyr gwasanaeth y Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol i sicrhau y caiff anghenion dioddefwyr a goroeswyr eu hadlewyrchu yn y Strategaethau Lleol

ADRODD A MONITRO/GWERTHUSO

Nid oes llawer o waith yn cael ei wneud i fonitro effaith mentrau gan gynnwys hyfforddiant ac, oherwydd y ffordd mae'r gwasanaethau wedi datblygu, nid oes llawer o waith yn cael ei wneud chwaith i ddadansoddi cost a budd nac effeithiolrwydd cost. Bydd angen dadansoddi strategaethau a chynlluniau gweithredu lleol yn erbyn adborth rydym ni ac eraill yn ei gael wrth ryngweithio â dioddefwyr, goroeswyr, pobl ifanc a phlant. Mae llawer o ffynonellau data yn bodoli a lle nad ydynt yn bodoli, mae angen i ni ystyried sut y gellir eu cael a'u defnyddio. Drwy'r dadansoddiad aml-lefel hwn, gallwn nodi'n gyflym yr hyn sy'n gweithio, yr hyn sy'n arfer da a'r hyn sydd angen ei wella.

Amcan 3: Byddwn yn parhau i adolygu gwaith ar nodi bylchau mewn data ymchwil a chasglu data a nodi arferion gorau ym maes gwerthuso

DANGOSYDDION CENEDLAETHOL:

Mae Dangosyddion Cenedlaethol y Ddeddf wedi cael eu cyhoeddi ac maent bellach yn destun ymgynghoriad manwl â rhanddeiliaid gyda'r bwriad o'u gweithredu'n llawn yn ystod haf 2020. Mae'r dangosyddion hyn yn defnyddio setiau data presennol cyfredol, ond lle y bo angen, bydd angen ystyried ffynonellau newydd o wybodaeth na ellir eu cael o rywle arall. Byddwn yn parhau i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol er mwyn datblygu'r Dangosyddion Cenedlaethol ymhellach i sicrhau perthnasedd a helpu i argymhell gwelliannau i setiau data presennol.

Amcan 4: Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth i roi'r Gyfres o Ddangosyddion y Cytunir arnynt yn Derfynol ar waith

Byddwn yn parhau i chwarae rôl gynghorol i gefnogi'r gweithdai a rhoi barn ein rhanddeiliaid allweddol a goroeswyr er mwyn sicrhau y caiff y dangosyddion terfynol eu defnyddio i roi gwybodaeth am gynnydd yn erbyn y Strategaeth Genedlaethol a helpu i lywio unrhyw strategaeth ddiwygiedig ar ôl hynny.

GRŴP CYLLIDO CYNALIADWY:

Un o'r heriau allweddol sy'n weddill yw symud tuag at fodel cyllido cynaliadwy ar gyfer darpariaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Am y rheswm hwn rydym wedi ailsefydlu'r Grŵp Cyllido Cynaliadwy.

Nod y Grŵp Cyllido Cynaliadwy yw llunio fframwaith cyllido cynaliadwy a helpu i weithredu'r Canllawiau Statudol ar gyfer comisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Cymru a chynghori arnynt. Mae'r maes gwaith hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau eu cyllido yn seiliedig ar angen. Bydd y Grŵp Cyllido Cynaliadwy yn ceisio dylanwadu ar yr holl ffrydiau cyllido perthnasol sy'n cefnogi gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

Mae'r Grŵp Cyllido Cynaliadwy, sydd wedi'i gadeirio gan Yasmin Khan, un o'r Cynghorwyr Cenedlaethol, wedi cytuno ar gyfres o egwyddorion cyllido ac wedi trafod diffiniad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) o gyllido cynaliadwy,

gan gydnabod bod angen annog sefydliadau i amrywio eu ffynonellau cyllido i osgoi dibynnu gormod ar un ffynhonnell. Mae'r grŵp wedi cydnabod bod angen gwella perfformiad Cymru wrth wneud ceisiadau llwyddiannus am gyllid o'r tu allan i Gymru.

Amcan 5: Byddwn yn parhau i Gadeirio'r Grŵp a gweithio gyda'r Llywodraeth a rhanddeiliaid i ddatblygu'r gwaith hwn.

LLYWODRAETH Y DU:

Bydd Llywodraeth y DU drwy ei rhaglen polisi a deddfwriaethol, er enghraifft, drwy fesurau a gynigir yn y Bil Cam-drin Domestig, yn parhau i effeithio ar wasanaethau yng Nghymru. Ni ddylai hyn rwystro'r cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru, ond byddwn yn gweithio i wella'r ffordd y caiff deddfwriaeth a pholisïau eu rhoi ar waith er mwyn rhoi sylw i ystyriaethau sy'n benodol i Gymru. Byddwn hefyd yn rhannu'r hyn a ddysgir â'r awdurdodaethau eraill sydd wedi'u datganoli.

Amcan 6: Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru i wella cyfathrebu â Swyddfa Gartref a Gweinyddiaeth Gyfiawnder y DU ac yn cydweithio â'r Comisiynydd Cam-drin Domestig newydd i sicrhau bod polisïau a deddfwriaeth y DU yn ystyried cyd-destun Cymru.

TRAIS RHYWIOL:

Rydym yn cydnabod bod heriau penodol ar gyfer y sector trais rhywiol ledled Cymru. Ein nod yw sicrhau nad yw gwasanaethau trais rhywiol yn cael eu hystyried yn berthynas tlawd i linyddau eraill trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mwyach.

Amcan 7: Byddwn yn parhau i archwilio sut y gellir adeiladu gallu a gwella cydweithio gyda darparwyr gwasanaethau trais rhywiol.

NIWED DIWYLLIANNOL ANGHYFREITHLON:

Efallai bod troseddau ac ymddygiadau yn gudd mewn lleoedd amlwg ond rydym yn cydnabod bod diffyg dealltwriaeth o briodas dan orfod, camdriniaeth ar sail anrhydedd ac anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) yn bodoli o hyd, ac mae angen i ni wneud mwy i amddiffyn grwpiau sy'n agored i niwed a sicrhau bod y gamdriniaeth a brofir gan grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig penodol yn cael ei deall ac y caiff dioddefwyr eu cefnogi gyda darpariaeth arbenigol.

Amcan 8: Byddwn yn cefnogi gwaith Grŵp Arwain Cymru Gyfan ar Gamdriniaeth ar sail Anrhydedd, Priodas Dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod i lunio amcanion clir

PLANT:

Mae llawer o'r farn, gan gynnwys yr NSPCC a Barnardos, fod plant fel dioddefwyr a thystion camdriniaeth yn aml yn cael eu hesgeuluso neu'n cael eu gweld fel ôl-

ystyriaeth. Rydym yn cydnabod bod angen dull pwrpasol ar gyfer dioddefwyr sy'n blant a'u bod, yn hanesyddol, wedi cael cam gan bob asiantaeth.

Amcan 9: Byddwn yn gweithio i adolygu gwaith datblygu polisiâu er mwyn sicrhau y caiff anghenion plant fel dioddefwyr a thystion eu hystyried ac yr eir i'r afael â nhw yn briodol, ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella lle y bo'n briodol.

MYNEDIAD AT WASANAETHAU

Rydym yn cydnabod yr anhawster y mae llawer o ddiodefwyr yn ei wynebu os bydd angen iddynt deithio ledled Cymru ac o ardaloedd gwledig y wlad i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol neu wasanaethau brys o ganlyniad i gam-drin/trais domestig a rhywiol. Gall hyn arwain at ddewis rhwng bod yn ddiogel neu dderbyn effeithiau andwyol niwed i ddiodefwyr a'u plant.

Dangosodd ymchwil gan y Rhwydwaith Troseddau Gwledig Cenedlaethol³ mewn saith ardal heddlu yn Lloegr fod diodefwyr yn aros gyda'u partneriaid camdriniol am dair blynedd ar gyfartaledd cyn ceisio cymorth o gymharu â 2.6 mlynedd mewn ardaloedd trefol.

Mae'r ymchwil yn honni er bod nifer y troseddau trais domestig a gofnodwyd fesul 1,000 o bobl mewn ardaloedd gwledig yn is, y rheswm am hyn yw bod diodefwyr yn llai tebygol o roi gwybod i'r heddlu am y drosedd. Dywedodd yr adroddiad ei bod yn fwy anodd cael mynediad at wasanaethau cymorth yn y wlad, lle roedd trafndiaeth gyhoeddus wael yn aml, a bod camdrinwyr yn cael eu denu i ardaloedd gwledig er mwyn cadw eu diodefwyr yn ynysig.

Amcan 10: Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth a darparwyr arbenigol i archwilio sut y gellir gwneud gwasanaethau yn fwy hygyrch i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig

CODI YMWHYBYDDIAETH

Yn y pen draw, drwy addysg y byddwn yn atal, yn amddiffyn ac yn cefnogi. Mae ymgyrchoedd cyfathrebu Llywodraeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus iawn ac rydym yn gobeithio cydweithio eto ar ymgyrchoedd yn y dyfodol.

Yr effaith fwyaf fydd drwy'r cwricwlwm. Ni fydd y cwricwlwm newydd yn darparu rhestr gynhwysfawr o gynnwys manwl a fyddai'n mynd yn gymhleth ac yn orlawn yn gyflym. Yn hytrach bydd yn rhoi'r hyblygrwydd i weithwyr proffesiynol ddewis y cynnwys sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr yn eu cyd-destun penodol megis arferion diwylliannol niweidiol neu faterion cysylltiedig eraill.

Caiff Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ei hailenwi'n Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE). Bydd hyn yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd i bob dysgwr

³ *Living on the edge*, Adroddiad ac Argymhellion o Arolwg Troseddau Gwledig Cenedlaethol 2018

rhwng 3 ac 16 oed a chaiff canllawiau diwygiedig eu llunio ar gyfer y cwricwlwm presennol. Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) hefyd wedi cynnal ymgynghoriad ar ganllawiau ar fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a gaiff eu cyhoeddi erbyn mis Ebrill 2020.

Amcan 11: Byddwn yn chwarae rôl weithredol o ran codi ymwybyddiaeth ac yn cyfrannu at waith y Llywodraeth i ddatblygu strategaethau i roi gwybodaeth drwy'r cwricwlwm a chanllawiau

Rydym o'r farn ein bod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yng Nghymru i ddeall sut y gall profiadau dioddefwyr o gam-drin domestig a thrais rhywiol greu'r newidiadau sydd eu hangen ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Fodd bynnag mae angen i ni hefyd ystyried sut y gallwn gynnig safbwynt beirniadol er mwyn deall y peryglon amrywiol y mae unigolion yn eu hwynebu.

Nazir Afzal OBE ac Yasmin Khan
Cynghorwyr Cenedlaethol
15 Tachwedd 2019